Superfast Business Wales

# Canllaw Busnes

# Ailedrych ar yr Achos Busnes ar gyfer TGCh

Os ydych ar daith tuag at Fand Eang Cyflym Iawn, neu'n ystyried hynny, gall fod yn amser delfrydol i adolygu a chynllunio eich defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Busnes Cymru Business Wales

Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Ailedrych ar yr Achos Busnes ar gyfer TGCh

Os ydych ar daith tuag at Fand Eang Cyflym Iawn, neu'n ystyried hynny, gallfod yn amser delfrydol i adolygu a chynllunio eich defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). I lawer o fusnesau mae TGCh yn rhywbeth sy'n cael ei ddefnyddio i ddechrau fel ymateb i angen ac nid o reidrwydd yn rhywbeth sy'n cael ei gynllunio fel rhan o'r broses cynllunio busnes gyffredinol. Hyd yn oed i'r rhai sydd â chynllun TGCh, mae Band Eang Cyflym Iawn yn newid mor fawr o ran y potensial ar gyfer defnyddio TGCh i fynd â'r busnes i lefel newydd, bydd angen iddyn nhw ystyried ailedrych ar eu prosesau cynllunio TGCh a'u huwchraddio.

Mae Band Eang Cyflym Iawn yn cynyddu'r posibiliadau ar gyfer cael mynediad i wybodaeth a'i phrosesu ac ar gyfer cyfathrebu gwell. Mae ganddo'r potensial i gysylltu eich timau a'ch systemau busnes mewnol â:

- Systemau busnes eraill gan gynnwys cyflenwyr, cwsmeriaid, partneriaid, rheoleiddwyr a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Pobl a busnesau ledled y byd
- Gwell opsiynau telathrebu fel Protocol Galwadau Ffôn dros y Rhyngrwyd (VOIP), telegynadledda a chyfarfodydd rhithwir
- Darparwyr gwasanaethau eraill fel y ddarpariaeth gynyddol o wasanaethau cwmwl, storio a phrosesu data ar gontractau allanol
- Eich marchnadoedd presennol a newydd a phresennol drwy e-fasnach

> Gall defnydd arloesol o'r cyfathrebu byd-eang a ddaw yn sgil Band Eang Cyflym Iawn agor marchnadoedd a chynigion newydd ar gyfer eich busnes.

## Deall

### Beth mae'r dechnoleg yn ei wneud?

Mae’r maes TGCh yn cymryd camau mawr ymlaen o ran eich galluogi i wella eich gweithgarwch a'ch prosesau presennol a’u cyflawni’n gyflymach ac yn fwy effeithlon.

Gyda systemau modern defnyddir amrywiaeth cynyddol o ddyfeisiau sydd ar gael i sicrhau y gallwch awtomeiddio prosesau a gwneud eich pobl yn fwy cynhyrchiol, gyda'r wybodaeth gywir ar gael ar yr adeg gywir.

Gallwch hefyd leihau eich costau prosesu'n sylweddol drwy uwchraddio caledwedd a meddalwedd bresennol, a symud prosesau i'r cwmwl lle y gallwch dalu am yr hyn rydych yn ei ddefnyddio a lleihau eich buddsoddiad cyfalaf. Mae'r hyn a oedd yn arfer cael ei wneud ar gyfrifiadur prif ffrâm enfawr bellach yn gallu cael ei wneud, wrth deithio, drwy ddefnyddio dyfais symudol wedi'i chysylltu â'r cwmwl.

Mae cyflymder ac ehangder ychwanegol Band Eang Cyflym Iawn yn golygu y gallwch ystyried datblygu meysydd busnes newydd.

Mae atebion ar ffurf pecynnau yn bodoli ar gyfer llawer o fodelau busnes posibl a, lle nad ydyn nhw'n bodoli, mae dulliau modern o ran datblygu meddalwedd, fel Agile, yn ei gwneud yn bosibl datblygu cysyniadau newydd yn gyflym a rhoi cynnig arnyn nhw am gost isel cyn ymrwymo adnoddau i greu fersiwn sy'n ddigon cryf ar gyfer cynhyrchu.

Mae llawer o fusnesau bellach yn defnyddio'r hygyrchedd a gynigir gan gymwysiadau symudol. Mae'r 'apiau' hyn sydd wedi'u datblygu ar gyfer ffonau clyfar, dyfeisiau llechen a dyfeisiau symudol eraill fel olrheinwyr cerbydau, camerâu teledu cylch cyfyng a dyfeisiau diogelwch, yn golygu y gallwch wneud eich gwasanaethau'n hygyrch beth bynnag yw'r lleoliad a bod 'ymlaen drwy'r amser'.

Gyda chynllunio a chyngor da, gall TGCh symud o fod yn gost i'r busnes, i fod yn fantais a rhywbeth sy'n cynhyrchu incwm.

# Mabwysiadu

## Dechrau Arni

Weithiau gall defnyddio TGCh heb ei gynllunio ddal busnes yn ôl. Bydd achos busnes a chynllun TGCh effeithiol yn cefnogi ac yn ymestyn y cynllun busnes cyffredinol. O'i defnyddio'n briodol, mae TGCh yn alluogydd, sy'n ei gwneud yn bosibl ichi dyfu eich busnes yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Felly mae'n hanfodol datblygu cynllun mewn ffordd resymegol a chynhwysfawr.

Gan ddefnyddio eich cynllun busnes fel canllaw, dadansoddwch eich prosesau busnes presennol er mwyn deall sut y mae TGCh yn cael ei defnyddio ynddyn nhw. Nodwch unrhyw rwystrau neu
Anawsterau lle y gallai gwelliannau i systemau alluogi'r busnes i weithio'n well.

**Chwiliwch am atebion addas drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau:**

- Defnyddiwch brofiad eich tîm
- Edrychwch yn y wasg fasnachol am atebion
- Ystyriwch gael cyngor proffesiynol (fel cynghorydd busnes digidol)

- Modelwch fusnesau eraill a sut maen nhw'n defnyddio TGCh yn effeithiol. Defnyddiwch eich rhwydwaith i ddod o hyd i gymwysiadau addas

Chwiliwch am yr enillion cyflym lle mae'r manteision yn glir a lle y gellir eu cyflawni'n gyflym. Yn y gorffennol gallai hyn fod wedi bod drwy raglenni sylfaenol fel systemau cyfrifyddu. Oherwydd bod mwy o fusnesau wedi rhoi'r systemau hyn yn eu lle, gallai atebion fel Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid a systemau rheoli gwerthiannau fod yn fan cychwyn da.

Cadwch bethau'n syml. Y dyddiau hyn mae llai o angen cael rhywbeth wedi'i ysgrifennu ar eich cyfer a llai o angen o lawer i brynu caledwedd ac offer storio data. Ystyriwch becynnau, y bydd llawer ohonyn nhw wedi'u lleoli yn y cwmwl. Gyda dibynadwyedd a chyflymder eich cysylltiad rhyngrwyd drwy Fand Eang Cyflym Iawn, nid oes cymaint o angen ichi fod yn berchen ar bŵer cyfrifiadura a'i reoli.

Ar hyn o bryd gellir mynd i'r afael â'r rhan mwyaf o ofynion drwy ddefnyddio pecyn a gall y rhan fwyaf o'r data gael eu storio a'u prosesu gan ddarparwyr trydydd parti o wasanaethau cwmwl. Sicrhewch y bydd y systemau yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r busnes ac na fyddan nhw'n gwrthdaro â'i gilydd. I wneud hyn, mae'n bwysig mapio'r meysydd posibl i fynd i'r afael â nhw. Er na fyddwch o bosibl yn gweithredu pob un o'r meysydd ar unwaith, mae'n bwysig deall y llif a sut y bydd gwybodaeth yn symud o un lle i'r llall.

Bydd y buddsoddiad mewn system cynllunio a gweithredu yn cael ei wastraffu neu ei leihau os na fyddwch yn cynnwys cynlluniau i hyfforddi eich staff i ddefnyddio'r systemau. Caniatewch amser i hyn ddigwydd cyn ichi gyflwyno'r systemau. Gall hyfforddiant fod yn rhywbeth sy'n digwydd mewn ystafell hyfforddi, ond yn fwy cyffredin mewn meysydd systemau bydd yr hyfforddiant yn seiliedig ar gyfrifiaduron a hefyd yn defnyddio Band Eang Cyflym Iawn i'w gyflwyno.

Mae cynllunio i weithredu systemau newydd yn hanfodol. Mae gwybod lle i ganfod y data cychwynnol a sut y byddan nhw'n cael eu creu yn brosesau pwysig. Os oes gennych anghenion mawr o ran trosglwyddo data, ystyriwch ddefnyddio asiantaeth i ymdrin â throsglwyddo neu fewnbynnu data ar eich rhan.

Un elfen hanfodol o'r cynllunio fydd y ddadl o ran y manteision disgwyliedig. Mae'n bwysig monitro'r ffordd y cânt eu gweithredu a pha fanteision a gyflawnir. Lle y bo'n bosibl sicrhewch fod cofnodi data perfformiad wedi'i gynllunio'n rhan o'r system a neilltuwch amser i gynna l adolygiadau yn union ar ôl gweithredu'r system ac yna ar gamau rheolaidd ar ôl hynny.

Cyflwynwch ddull i roi canlyniadau'r adolygiadau hyn ar waith a sicrhau bod gwelliannau'n digwydd yn barhaus.

# Ymelwa

## Pa Fanteision Busnes y Gallaf eu Disgwyl?

**Daw manteision busnes o nifer o feysydd:**

- Mae prosesau mwy effeithlon yn lleihau costau ac yn sicrhau y gallwch ddiwallu anghenion cwsmeriaid yn fwy amserol
- Mae'n rhyddhau pobl o dasgau ailadroddus sy'n cymryd amser a gellir eu defnyddio mewn rolau eraill, mwy cynhyrchiol
- Mae mynediad i wybodaeth well, mwy amserol yn golygu gwneud penderfyniadau gwell.
- Mae'r gallu i gyrraedd marchnadoedd ledled y byd yn eich galluogi i ymestyn eich cyrhaeddiad i farchnadoedd newydd a diwallu anghenion lleol penodol. Gallwch gynnig gwasanaeth 'yn lle ol o bell' i'r marchnadoedd rydych yn eu gwasanaethu
- Daw mwy o werthiannau drwy well amlygrwydd, cyrhaeddiad ehangach, mynediad effeithiol i'ch systemau a thrwy ddatblygu amrywiaeth o atebion e-fusnes – gan gynnwys e-fasnach, mwy o gydweithio a gwell cyfa threbu â chleientiaid

# Awgrymiadau Ardderchog

### Sicrhewch gefnogaeth a chyfranogiad gan y prif dîm
Os na fydd canfyddiad bod y prif dîm yn cyfranogi yn y broses, bydd eich cyfle i sicrhau cefnogaeth ar lefelau is, ac felly eich cyfle o lwyddo, yn lleihau'n sylweddol.

### Caniatewch ddigon o amser ar gyfer dadansoddi ansawdd y sefyllfa bresennol
Gall fod yn ddrud rhuthro i mewn i atebion cyn eich bod yn deall y materion dan sylw.

### Mae anghenion y busnes yn hollbwysig
Dylech ddiwallu'r anghenion hynny yn syml ac yn effeithiol. Peidiwch â defnyddio technoleg lle nad oes ei hangen.

### Taenwch eich rhwyd yn eang wrth geisio dod o hyd i atebion
Gall mynd y tu allan i'r busnes i gael adolygiadau ac argymhellion am ddulliau gweithredu gynyddu amser a gwybodaeth, a'ch galluogi i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer eich busnes.

### Defnyddiwch ymgynghorwyr allanol yn ddoeth
Sicrhewch eich bod yn rheoli eu hamser a'u cwmpas, a'ch bod yn gwrando ar eu hargymhellion ac yn eu hystyried.

### Sicrhewch eich bod yn deall effaith debygol systemau newydd

A sicrhewch eich bod wedi paratoi ar gyfer yr effaith honno.

### Profwch, profwch a phrofwch eto

Mae'n well dod o hyd i broblemau cyn ichi fynd yn fyw. Sicrhewch eich bod yn profi eithriadau posibl. Anaml y bydd yr amser a dreulir yn profi dyluniad da yn cael ei wastraffu.

### Sicrhewch eich bod wedi hyfforddi pobl yn effeithiol

Mae'n well dod o hyd i gamddealltwriaeth cyn ichi fynd yn fyw.

### Cofiwch gynnwys y bobl a fydd yn gorfod gweithredu'r systemau

Sicrhewch eich bod yn deall yr effeithiau diwylliannol a'r effeithiau ar bobl yn gywir.

### Sefydlwch broses fesur syml ac effeithiol

Dylai eich Dangosyddion Perfformiad Allweddol eich rhybuddio am faterion sylfaenol.

## Canllawiau Perthnasol Eraill

Canllaw SFBW ar Gyfrifiadura Cwmwl
http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifiadura-cwmwl

Canllaw SFBW ar Reoli Newid
http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/rheoli-newid

Canllaw SFBW ar Reoli Prosiectau
http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/rheoli-prosiectau-tg

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn:**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Trefnwch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich helpu I greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes:**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Cadwch eich bys ar y pwls gyda Cyflymu Busnesau Cymru

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**